**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Ian Stuart
Prif Weithredwr HSBC UK

Oliemata O'Donoghue
Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyfoeth a Bancio Personol
HSBC UK

Claudia Evans
Rheolwr Polisi Cyhoeddus
HSBC UK

21/12/2023

Annwyl Ian Stuart,

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – Senedd Cymru**

Yn dilyn ymddangosiad eich Pennaeth Cyfoeth a Bancio Personol, José Carvalho, o flaen Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru ar 29 Tachwedd 2023, mae Delyth Jewell, Cadeirydd y Pwyllgor wedi ysgrifennu llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2023, at HSBC UK. Yn y llythyr mae'n cyfeirio at wasanaethau digidol HSBC UK ac yn nodi:

> *'Er gwaethaf hyn, credwn fod cyfle bellach i HSBC ddatgan drachefn ei ymrwymiad i Gymru a'r Gymraeg drwy drawsnewid yr hyn a gynigir gan ei wasanaethau bancio digidol. Byddem yn annog HSBC i ymrwymo i weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i wella'r hyn a gynigir ganddo yn Gymraeg, er mwyn cefnogi'n well y 600,000 o gwsmeriaid y banc yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys darparu fersiwn Gymraeg o'r ap bancio. Byddem yn annog HSBC yn gryf i ystyried y mater hwn.'*

Fel gwyddoch rwyf wedi cynnal cyfarfod gyda'ch swyddogion yn ddiweddar, ac wedi mynegi fy mhryderon innau hefyd am y sefyllfa bresennol. Cafwyd cyfle yn y cyfarfod hwnnw i gyfnewid safbwyntiau, ond byddwch yn deall fy mod yn parhau yn awyddus i sicrhau bod HSBC, ac yn wir y sector bancio yn gyffredinol, yn deall y cyd-destun ieithyddol yng Nghymru, ac yn datblygu gwasanaethau cyfoes i siaradwyr Cymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Byddwn yn ddiolchgar pe byddai modd i ni gyfarfod i drafod hyn ymhellach, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor. Os gwelwch yn dda a allwch chi gysylltu gyda Mathew Thomas, Uwch Swyddog Hybu mathew.thomas@cyg-wlc.cymru i drefnu dyddiadau ac amseroedd posibl inni gwrdd?

Yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Delyth Jewell – Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – Senedd Cymru

Joanne Watkin-Jones – HSBC UK